# Addasiadau tai

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 6

Ein canfyddiadau 9

Argymhellion 17

Atodiadau 18

1 Ynglŷn â’n gwaith 19

2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 21

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2010, fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru oddeutu'r amser hwnnw, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) drosglwyddo ei stoc dai i gymdeithasau tai er mwyn iddynt hwy ei rheoli. Golyga hyn fod y broses o ddarparu addasiadau tai yn wahanol i bobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai o'i gymharu â pherchen-feddianwyr a phobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

2 Fe wnaethom ni fwrw golwg ar sut y mae'r Cyngor yn darparu addasiadau tai ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae addasiadau tai'n golygu newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i blant, pobl ifanc ac oedolion symud o gwmpas. Gallant helpu i atal cwympiadau neu leihau neu leddfu'r angen am ofal ffurfiol a derbyniadau diangen i leoliadau gofal. Gallai enghreifftiau o addasiadau tai gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod; a
- lledu drysau fel bod lle i gadeiriau olwyn fynd drwyddynt.

4 Mae'r Cyngor yn asesu anghenion pobl i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cymorth. Os ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, megis addasiadau tai neu offer, i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros gartref.

5 Fe gyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar Addasiadau Tai yn 2018. Canfuom system orgymhleth a oedd yn atgyfnerthu anghydraddoldeb, yn hytrach nag ymdrin ag anghydraddoldeb, o ran darparu addasiadau.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Canfuom fod gan y Cyngor brosesau eglur ar gyfer asesu a darparu addasiadau tai. Mae'n defnyddio data gweithrediadol manwl i ddeall y galw yn awr ac yn y dyfodol am addasiadau ar gyfer oedolion, ond nid ar gyfer plant a phobl ifanc.

7 Mae'r Cyngor yn cynyddu ei gyllideb gyfalaf i ateb y galw, ond nid yw'n defnyddio data i asesu a oes ganddo ddigon o gapasiti i ddarparu addasiadau mewn ffordd amserol.

8 Mae'r Cyngor yn newid sut y mae'n asesu ac yn darparu addasiadau, ond nid yw hyn wedi gwella perfformiad eto. Er bod y Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro perfformiad addasiadau tai ac adrodd ar hynny, nid yw'n gwybod effaith yr addasiadau hyn nac yn dangos a ydynt yn darparu gwerth am arian.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi cyflwyno dau argymhelliad i'r Cyngor i ddefnyddio data'n well ac i ddeall effaith darparu addasiadau tai.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Mae Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnwys 30,587 o anheddau aelwydydd (Mawrth 2023), gyda:

- 63% yn rhai sy'n eiddo i Berchen-feddianwyr:
- 24% yn eiddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithas Dai):
- 14% yn rhai sy'n cael eu Rhentu'n Breifat

Nifer yr atgyfeiriadau at Flaenau Gwent i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl:

- 2022-23: 110
- 2023-24: 71
- 2024-25: 74
- 2025-26: 113

Nifer yr atgyfeiriadau i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc:

- 2022-23: 2
- 2023-24: 7
- 2024-25: 3
- 2025-26: 4

Nifer y Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl a gwblhawyd ym Mlaenau Gwent:

- 2022-23: 63
- 2023-24: 96
- 2024-25: 59
- 2025-26: 99

Nifer y bobl ar y rhestr aros ar gyfer Grant Cyfleusterau i’r Anabl ym mis:

- Mawrth 2023: 47
- Mawrth 2024: 24
- Mawrth 2025: 29
- Mawrth 2026: 43

Yr amser aros cyfartalog ar gyfer Grant Cyfleusterau i’r Anabl (o’r dyddiad y cafodd y Gwasanaethau Cymdeithasol atgyfeiriad i’r dyddiad cymeradwyo):

2022-23: 220 o ddiwrnodau

2023-24: 221 o ddiwrnodau

2024-25: 335 o ddiwrnodau

2025-26: 361 o ddiwrnodau

Cost gyfartalog darparu Grant Cyfleusterau i’r Anabl ym Mlaenau Gwent:

2022-23: £9,278

2023-24: £7,413

2024-25: £8,479

2025-26: £8,775

Cost gyfartalog darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar ran Plant a Phobl Ifanc ym Mlaenau Gwent:

2022-23: £47,710

2023-24: £10,827

2024-25: £47,378

2025-26: Dim costau wedi'u hysgwyddo gan bod ceisiadau'n dod i law tuag at ddiwedd y flwyddyn.

# Ein canfyddiadau

## Cynllunio

### Mae gan y Cyngor ddull eglur o ddarparu addasiadau tai

**Dull o Ddarparu Addasiadau Tai**

10 Mae'r Cyngor yn asesu atgyfeiriadau, yn goruchwylio'r modd y darperir addasiadau tai, ac yn archwilio'r holl addasiadau tai i gartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ac i landlordiaid preifat. I bobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai, mae rôl y Cyngor yn gyfyngedig. Mae Therapyddion Galwedigaethol y Cyngor yn asesu atgyfeiriadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai, ond ar ôl hyn, y gymdeithas dai sy'n gyfrifol am drefnu a chwblhau'r addasiad. Nid yw'r Cyngor yn monitro pa mor gyflym y mae cymdeithasau tai'n cwblhau'r gwaith na pha un a ydynt yn archwilio addasiadau a gwblhawyd. O ganlyniad, nid oes ganddo ddarlun llawn o amseroldeb ac ansawdd addasiadau ledled y fwrdeistref.

11 I berchen-feddianwyr, landlordiaid a'u tenantiaid, mae gan y Cyngor brosesau eglur i asesu a darparu addasiadau tai. Mae'r gweithdrefnau ysgrifenedig yn tywys staff trwy'r broses a gallant helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth cyson.

12 Mae'r Cyngor yn egluro ei ddull o ddarparu addasiadau tai ar ei wefan. Mae'n nodi pwy all gael addasiad, pa gyllid sydd ar gael, a beth sy'n digwydd yn ystod pob cam. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys Polisi Tai'r Sector Preifat, sy'n disgrifio'r gwahanol opsiynau mewn mwy o fanylder. Mae'r Cyngor yn cefnogi ymgeiswyr trwy'r broses addasiadau tai trwy gynnig help i gwblhau'r ffurflen gais. Mae bod â gwybodaeth eglur, hygyrch gyda chymorth ar gael yn helpu ymgeiswyr i ddeall pob cam o'r broses ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer addasiad i'w cartref.

13 Mae cymorth ar gael i helpu pobl ac arnynt angen tai wedi'u haddasu yn y fwrdeistref. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai, yn rheoli Polisi Dyraniadau Cofrestr Tai Cyffredin Blaenau Gwent. Mae'r holl bartneriaid yn cydweithio i ddiwallu anghenion tai gan gynnwys tai wedi'u haddasu. Mae'r polisi hwn yn gwneud yn siŵr bod cartrefi wedi'u haddasu'n cael eu blaenoriaethu i bobl y mae arnynt eu hangen fwyaf sy'n cynorthwyo pobl i aros mewn amgylchedd cartref.

**Deall y galw**

14 Mae'r Cyngor yn casglu ac yn dadansoddi data gweithrediadol manwl. Mae'n defnyddio'r data hwn i ategu ei ddealltwriaeth am bwysau ar y gwasanaeth, a'r galw am addasiadau tai ar gyfer oedolion yn awr ac yn y dyfodol.

15 Fodd bynnag, cyfyngedig yw defnydd y Cyngor o ddata allanol i ragweld y galw am addasiadau tai yn y dyfodol. Fe wnaeth y Cyngor ystyried data allanol i oleuo ei Strategaeth Dai 2025-2030 a Pholisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ond nid oes rhyw lawer o dystiolaeth ei fod wedi cael ei ddefnyddio i ragweld y galw am addasiadau tai yn y dyfodol.

16 Hefyd, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc. Er bod y galw'n isel, sef pedwar y flwyddyn ar gyfartaledd, mae cost gyfartalog addasiad ar gyfer plentyn yn sylweddol uwch na chost gyfartalog addasiadau ar gyfer oedolion. Gall pob addasiad ar gyfer plentyn neu berson ifanc fod yn gostus, felly fe allai peidio â rhagweld y galw adael y Cyngor mewn sefyllfa lle mae'n amharod yn ariannol ac yn weithrediadol.

# Darparu


## Mae'r Cyngor yn newid ei ddull darparu ac yn cynyddu ei gyllideb i ateb y galw am y gwasanaeth, ond nid yw hyn wedi arwain at berfformiad gwell eto

### Darparu adnoddau

17 Ym mis Mawrth 2022, fe gafodd y Cyngor wared ar brofion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Er ei fod wedi rhagweld galw uwch, ni chynyddodd y Cyngor ei gyllideb gyfalaf i ddechrau. Felly wrth i'r galw gynyddu, fe ymffurfiodd rhestr aros. Mae'r rhestr aros yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth i ddarparu addasiadau amserol.

18 Fel a ddangosir yn Arddangosyn 1, o 2023-24, flwyddyn ar ôl y penderfyniad i gael gwared ar brofion modd, fe ymatebodd y Cyngor trwy gynyddu ei gyllideb gyfalaf. Mae'n parhau i wneud hynny o un flwyddyn i'r llall, gan ddangos ymrwymiad parhaus y Cyngor.


**Arddangosyn 1: Cyllideb Gyfalaf y Grant Cyfleusterau i'r Anabl**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

19 Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd yn y gyllideb, mae'r Cyngor yn parhau i reoli'r rhestr aros gydag amseroedd aros yn mynd yn hwy fel a ddangosir yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl**





Ffynhonnell: Data'r Cyngor

20 Mae'r Cyngor yn defnyddio Therapyddion Galwedigaethol ac Aseswyr Dibynadwy i asesu atgyfeiriadau[1]. Mae defnyddio Aseswyr Dibynadwy'n helpu i ddarparu adnoddau ychwanegol. Ceir dau syrfëwr tai, sy'n llai na'r pedwar oedd i'w cael un mlynedd ar ddeg yn ôl pan oedd y galw am addasiadau tai'n is. Fodd bynnag, bu cynnydd mawr mewn atgyfeiriadau yn 2025-26, fel a ddangosir yn Arddangosyn 3. Er bod y Cyngor yn cynyddu'r gyllideb gyfalaf i ymateb i bwysau ar y gwasanaeth, nid yw wedi asesu capasiti'r gwasanaeth i helpu i oleuo penderfyniadau ynghylch darparu adnoddau.

[1] Rhywun sy'n gweithio ar ran nifer o sefydliadau a chyda'u caniatâd i gynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yw Asesydd Dibynadwy.

**Arddangosyn 3: Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl**





Ffynhonnell: Data'r Cyngor

## Cymhwyso Gwersi a Ddysgwyd

21 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei ddata ar berfformiad ac adborth gan staff a defnyddwyr y gwasanaeth i newid y ffordd y mae'n asesu ac yn darparu addasiadau tai. Er enghraifft, bellach mae Therapyddion Galwedigaethol a Syrfewyr Tai'n ymweld â chartrefi gyda'i gilydd i gyflymu asesiadau. Yn 2025, fe newidiodd y Cyngor ei drefniadau caffael hefyd fel bod contractwyr yn gallu cyflawni tasgau gwaith lluosog gyda'i gilydd, yn hytrach nag un dasg waith ar y tro. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i ddysgu a darparu gwasanaeth mwy effeithlon. Ond newidiadau diweddar yw'r rhain ac, fel a ddengys Arddangosyn 4, ni all y Cyngor ddangos tystiolaeth eto eu bod yn gwella perfformiad.

**Arddangosyn 4: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl**




Ffynhonnell: Data'r Cyngor

# Monitro

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro perfformiad addasiadau tai ac adrodd ar hynny

### Rheoli Perfformiad

22 Mae'r Cyngor yn casglu, yn dadansoddi ac yn monitro amrywiaeth o wybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth. Ond nid oes un system TG sy'n tracio taith person trwy'r broses. Yn lle hynny, mae swyddogion yn cofnodi data gweithrediadol mewn gwahanol systemau TG ac ar daenlenni manwl i reoli a monitro'r gwasanaeth. O ganlyniad, nid yw prosesau'r Cyngor mor effeithlon ag y gallent fod, ac mae risg bod staff yn dyblygu ymdrechion.

23 Mae uwch swyddogion ac aelodau'n cael diweddariadau am berfformiad addasiadau tai. Mae'r Cyd-dîm Gweithredol yn cael ei ddangosfwrdd perfformiad corfforaethol bob 12 wythnos gyda'r perfformiad diweddaraf. Mae aelodau hefyd yn cael diweddariadau trwy hunanasesiad blynyddol y Cyngor ac adroddiadau eraill ar gynnydd a pholisi. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn yr adroddiad diweddaraf ar Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat, a gyflwynwyd i aelodau ym mis Tachwedd 2025 ac ym mis Ionawr 2026. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi'r cyfle i uwch swyddogion ac aelodau herio perfformiad a chraffu arno.

# Effaith

## Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith darparu addasiadau tai na'u gwerth am arian

24 Nid yw'r Cyngor yn diffinio'r deilliannau y mae'n eu disgwyl o addasiadau tai. Er bod Cynllun Corfforaethol 2022-27 yn cynnwys blaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth, diogelwch a chydnerthedd, nid yw'n amlygu cyfraniad addasiadau tai. Yn yr un modd, er bod Strategaeth Dai 2025-2030 yn cynnwys targed i ddwyn cynnydd o 30% Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd, nid yw'n cysylltu hyn â deilliannau ehangach megis llesiant, annibyniaeth, neu atal. Heb ddealltwriaeth eglur am yr hyn y mae arno eisiau ei gyflawni, ni all y Cyngor asesu effaith darparu addasiadau tai.

25 Nid yw'r Cyngor yn tracio deilliannau ar gyfer defnyddwyr unigol y gwasanaeth ychwaith. Ar ddechrau'r broses, mae'n cofnodi anghenion ymarferol ond nid y deilliannau a ddymunir. Ar y diwedd, mae'n casglu adborth ar effaith addasiad tai, ond nid yw'r Cyngor yn dadansoddi'r wybodaeth hon nac yn adrodd arni. O ganlyniad, nid yw effaith addasiadau tai ar y cyfan yn hysbys.

26 Nid yw’r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn gwerthuso gwerth am arian yr addasiadau tai a gyflawnwyd. Mae’n glir i swyddogion ac aelodau bod gan addasiadau tai’r potensial i liniaru neu leihau’r angen i bobl gael gofal a chymorth ychwanegol ac y gall leddfu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Ond nid oes gan y Cyngor ddull sy’n cynorthwyo swyddogion i ddadansoddi gwerth am arian a dangos tystiolaeth ohono.

# Argymhellion

**A1 Defnyddio data**

Mae angen i'r Cygnor gryfhau ei ddefnydd o'r canlynol:

**1.1** data allanol i helpu i ragweld y galw am addasiadau tai yn y dyfodol **(paragraff 15)**;

**1.2** data i ragweld y galw am addasiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc i wella'r modd y cynllunnir adnoddau **(paragraff 16)**; a

**1.3** data i ddeall capasiti ei wasanaeth i helpu i oleuo penderfyniadau ynglŷn â darparu adnoddau **(paragraff 20)**.

**A2 Deall Effaith**

**2.1** Mae angen i'r Cyngor bennu deilliannau ar gyfer addasiadau tai i'w helpu i ddangos effaith eu darparu **(paragraff 24);**

**2.2** Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i ddeall a yw'r deilliannau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cyflawni. Gall hyn helpu'r Cyngor i ddangos effaith darparu addasiadau tai i ddefnyddwyr y gwasanaeth **(paragraff 25);** a

**2.3** Dylai'r Cyngor ddatblygu trefniadau i asesu'r gwerth am arian sy'n deillio o ddarparu addasiadau tai. Byddai hyn hefyd yn helpu'r Cyngor i ddeall a dangos effaith ataliol y gwasanaeth **(paragraff 26)**.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer addasiadau tai'n cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull y Cyngor, y modd y mae'n darparu addasiadau tai a'i drefniadau monitro.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys cyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill sy'n rhan o ddarparu addasiadau tai. Ni wnaethom gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant ychwaith.

Fe gwblhaom ni'r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn ym mis Mawrth a mis Ebrill 2026.

## Cwestiynau

Fe waeth yr archwiliad ddefnyddio'r cwestiynau lefel uchel hyn:

- A oes gan y Cyngor ddull gwybodus ac eglur o ddarparu addasiadau tai sy'n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddull o ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro'r cynnydd a'r effaith wrth ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

## Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru yn 2018 ar Addasiadau Tai i ddatblygu'r meini prawf archwilio. Fe gawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i gael rhagor o ddealltwriaeth am addasiadau tai.

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau a oedd yn ymwneud â’r broses addasiadau tai a chyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig allweddol.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

## Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)

1. Gall Grant Cyfleusterau i'r Anabl helpu preswylwyr anabl i wneud newidiadau hanfodol i'w cartrefi fel eu bod yn gallu byw yn ddiogel.
2. Mae'r grant yn cwmpasu newidiadau strwythurol sylweddol, angenrheidiol neu offer i wella mynediad i mewn i'r cartref ac o'i gwmpas.
3. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau yng Nghymru i ddarparu'r grant yma ac mae'n berthnasol i berchen-feddianwyr, tenantiaid a landlordiaid.

## Yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth werth am arian

4. Mae gwerth am arian yn golygu gwario arian mewn ffordd sy'n cael y canlyniadau gorau posibl am y gost. Cysylltir gwerth am arian fel arfer â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

   - Darbodaeth: prynu'r hyn y mae ei angen am y gost synhwyrol isaf i helpu i gyflawni deilliannau bwriadedig.
   - Effeithlonrwydd: defnyddio adnoddau'n dda i helpu i gyflawni deilliannau bwriadedig.
   - Effeithiolrwydd: cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy.

5 Mae dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i wirio a ydynt yn defnyddio arian ac adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

6 Rhaid i gynghorau feddwl am anghenion byrdymor a hirdymor wrth wneud penderfyniadau hefyd. Weithiau nid yr opsiwn uniongyrchol rhataf yw’r gwerth gorau am arian, ond yn hytrach yr un sy’n atal problemau mwy a chostau uwch yn ddiweddarach.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.